# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2584 |
| Committee | Pwyllgor Safonau |
| Date | 24/01/2023 |
| Attendees | Mr R. Alexander (Cadeirydd)<br>Mr. Roy Lynch (Aelod Pwyllgor)<br>Sarah Rosser (Aelod Pwyllgor)<br>Mr. Stephen Williams (Aelod Pwyllgor)<br>Town Councillor Roger Clark (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Cross (Aelod Pwyllgor)<br>Councillor Jacqueline Thomas (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Lisa Winnett (Aelod Pwyllgor)<br>Deborah Jones (Secretary)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog)<br>Sarah King (Swyddog)<br>Louise Rosser (Swyddog)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Pob Cynghorydd (Notify) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 7076 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Ni chafwyd ceisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 7077 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:-<br><br>Cynghorydd S. Thomas (Arweinydd y Cyngor)<br>Cynghorydd J. Wilkins (Arweinydd y Grŵp Annibynnol)<br>Cynghorydd J. Thomas<br>Ms S. Rosser |

| | |
|---|---|
| Item ID | 7078 |
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 7079 |
| Item Title | Pwyllgor Safonau |
| Summary | Cyflwynwyd penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2022.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r penderfyniadau. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 7080 |
| Item Title | Dalen Weithredu |
| Summary | Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2022.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor mai dim ond os oes eitemau perthnasol ar agenda y cyfarfod y caiff Arweinwyr Grŵp eu gwahodd i gyfarfodydd y Pwyllgor Safonau, a nodi gwaith y Tîm Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Monitro yn yr Adroddiad Blynyddol. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 7085 |
| Item Title | Cylch Gorchwyl |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i'r drafft Gylch Gorchwyl<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor<br>• ddiwygio'r drafft Gylch Gorchwyl i gynnwys y gair 'moeseg' i adlewyrchu Egwyddorion Nolan, gan ddefnyddio'r gair 'moeseg' yn lle 'safonau';<br>• y byddai'r Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol yn edrych ar ymwneud y Pwyllgor gyda gwaith Cynghorau Tref/Cymuned;<br>• y byddai'r Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol yn dilyn mater presenoldeb cynrychiolydd Cynghorau Tref ar y Pwyllgor. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 7086 |
| Item Title | Drafft Templed Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i dempled drafft yr Adroddiad Blynyddol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor:<br>• y dylai'r Adroddiad Blynyddol gynnwys eitemau yn y parth cyhoeddus;<br>• y dylai'r Adroddiad Blynyddol gynnwys casgliad y Cadeirydd yn crynhoi gwaith y Pwyllgor am y flwyddyn a'r casgliad i nodi gwaith y Tîm Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Monitro;<br>• i gynnull cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Safonau ar 2 Mawrth 2023 i |

| | |
|---|---|
| | gymeradwyo fersiwn terfynol yr Adroddiad Blynyddol cyn iddo gael ei ystyried gan y Cyngor ar 30 Mawrth 2023;<br>y dylai'r adroddiad gynnwys blwyddyn calendr h.y. Ionawr 2022 – Ionawr 2023. |

| Item ID | 7087 |
|---|---|
| Item Title | Diweddariad ar benodi i swydd wag ar gyfer Aelod Lleyg ar y Pwyllgor Safonau |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad llafar y Swyddog Diogelu Data a Llywodraethiant.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r adroddiad llafar. |

| Item ID | 7088 |
|---|---|
| Item Title | Diwygiad i Broses y Cod Ymddygiad Cwynion |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad llafar y Swyddog Monitro.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i hysbysu'r Ombwdsmon o hyn ymlaen os yw'r broses newydd yn achosi problemau. |

| Item ID | 7089 |
|---|---|
| Item Title | Diweddariad ar Hyfforddiant yn y Dyfodol ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau |
| Summary | CYTUNODD y Pwyllgor y dylid trefnu sesiwn hyfforddiant rhithiol hanner diwrnod gyda darparydd allanol ar gyfer Aelodau presennol a newydd a gwahodd Cynghorau Torfaen a Sir Fynwy. Byddid yn cynnal trafodaeth fewnol ar y sesiwn hyfforddiant unwaith y'i cwblhawyd.<br><br>**UNRHYW FATER ARALL/DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**<br><br>Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol i edrych ar dudalen benodol ar y wefan yn hyrwyddo gwaith y Pwyllgor Safonau.<br><br>Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 2 Mawrth 2023. |